Llywodraeth EM

# Cyfiawnder Cymdeithasol: trawsnewid bywydau

## Adroddiad ar gynnydd

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros
Waith a Phensiynau
drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Tachwedd 2014

Cm 8959

OGL

© Hawlfraint y Goron  2014

Gallwch ailddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f.2. I weld y drwydded hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-governmentlicence/version/2/ neu e-bostiwch PSI@nationalarchives.gsi.gov.uk. Lle mae deunydd trydydd parti wedi'i nodi, rhaid cael caniatâd y deiliad hawlfraint briodol.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn

Private Pensions Policy and Analysis
Department for Work and Pensions
1st Floor, Caxton House
6-12 Tothill Street
London
SW1H 9NA

E-bost: reinvigorating.pensions@dwp.gsi.gov.uk

Argraffu ISBN 9781474110372
Gwe   ISBN 9781474110389

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

ID 04111411    11/14

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffibr wedi'i ailgylchu

Mae uchelgeisiau cyfiawnder cymdeithasol y Llywodraeth yn berthnasol i bob rhan o’r Deyrnas Unedig, fel y nodir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am eu polisïau datganoledig eu hunain ac felly nid yn cael eu rhwymo gan y strategaeth hon.

Bydd Llywodraeth y DU yn parhau i weithio’n agos gyda’r gweinyddiaethau datganoledig i hyrwyddo egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol.

# Cynnwys

Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau 5

Cyflwyniad 7

# Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

## Ar ddechrau'r Senedd hon, nodais fy ngweledigaeth ar gyfer trawsnewid bywydau'r rhai mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas, dan faner Cyfiawnder Cymdeithasol.

Mae fy ymrwymiad a'm brwdfrydedd am yr achos hwn mor gryf heddiw ag yr oedd pan osodais y weledigaeth honno.

Cyhoeddwyd *Cyfiawnder Cymdeithasol: trawsnewid bywydau* yn 2012 ac agorwyd gyda stori go iawn, a dwy flynedd yn hwyrach, mae'n iawn i'r adroddiad ar gynnydd hwn wneud hynny hefyd.

Yn gynharach eleni, daeth grŵp o bobl a oedd wedi gadael gofal i Bwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol y Cabinet. Dywedasant wrthym fod pobl sy'n gadael gofal fel pawb arall – mae ganddynt emosiynau, mae ganddynt falchder, ac mae ganddynt uchelgais. Dywedasant wrthym fod mynd i ofal yn debyg i ddamwain car yn eich calon. Gwnaethant ofyn i'm Pwyllgor a oeddem yn cofio mynd i'r gwely heb wybod ble y byddem yn cysgu'r noson ganlynol. Dywedasant wrthym fod y rhan fwyaf o bobl sy'n gadael gofal yn awyddus i lwyddo.

Ac eto o'r 10,000 o bobl ifanc sy'n gadael gofal yn Lloegr bob blwyddyn, dim ond 37% ohonynt sydd wedi ennill 5 TGAU gradd A i C, o'i gymharu â 80% ar gyfer plant nad ydynt wedi mynd i mewn i ofal. Mae'r bwlch hwn yn ofnadwy; am ein bod yn gwybod bod cydraddoldeb mewn cyrhaeddiad addysgol yn un ffordd o atal tlodi.

Rwy'n falch mai ni yw'r llywodraeth gyntaf sydd wedi dwyn ynghyd naw adran sy'n darparu strategaeth ymroddedig i'r rhai sy'n gadael gofal. Strategaeth sy'n anelu at fynd i'r afael â'r problemau unigryw maent yn eu hwynebu, gan wella eu canlyniadau, ac yn rhoi cychwyn mewn bywyd sy'n caniatáu i wireddu eu gobeithion a'u breuddwydion hwy.

Mae cyfiawnder cymdeithasol yn ymwneud â'r mathau hyn o newid bywyd. Credaf y gallwn newid bywydau un bywyd ar y tro. Yn eu tro, mae pob newid bywyd yn mynd tuag at gyflawni Cyfiawnder Cymdeithasol.

Ond nid yw hyn yn rhywbeth y gall y Llywodraeth ei gyflawni ar ei ben ei hun.

Mae Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â phartneriaethau ar draws y llywodraeth ac ar draws sectorau. Cyfiawnder Cymdeithasol yw ein dyletswydd ar y cyd ac mae'n gyfrifoldeb ar y cyd.

Ers gormod o amser, mae teuluoedd sydd wedi chwalu, dyled, methiant addysgol, dibyniaeth a bod heb waith wedi cael eu gweld fel problemau anhydrin. Wrth weithio gyda'n gilydd, mae Cyfiawnder Cymdeithasol yn torri'r rhith hwn – meithrin cysyniadau sylfaenol fel cariad, tosturi ac ymddiriedaeth. Yn fwy na dim, mae'n seiliedig ar y gred nad oes unrhyw un y tu hwnt i'n cyrraedd ac na ddylai unrhyw un gael ei dileu.

Yn dilyn y dirwasgiad gwaethaf ers yr Ail Ryfel Byd, mae'r Llywodraeth hon wedi gosod adferiad sydd wedi gweld cynnydd mewn cyflogaeth o dros 1.7 miliwn ers 2010, mae diweithdra ymhlith pobl ifanc wedi disgyn i lefelau yn is nag ar amser yr etholiad, a'r gyfradd isaf o aelwydydd di-waith ar gofnod.

Ond ni fyddai'n adferiad effeithiol os caiff pobl eu gadael ar ôl. Rwyf wedi dweud erioed, ac yn parhau i gredu, mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi. Eto pan gefais y swydd hon fel Ysgrifennydd Gwaith a Phensiynau, roedd y system fudd-daliadau – y ffordd y mae pobl yn dod o hyd i waith – wedi torri. Dyna pam ochr yn ochr â diwygio economaidd, rwyf wedi bod yn gadarn o ran fy ymrwymiad i ddiwygio cymdeithasol.

O ganlyniad, rydym yn awr yn cyflwyno'r trawsnewid mwyaf o'r system fudd-daliadau yn y 60 mlynedd diwethaf. Gyda chyflwyniad cenedlaethol yn dechrau yn gynnar yn 2015, mae Credyd Cynhwysol yn ganolog i gynllun economaidd hirdymor y Llywodraeth, gyda'r potensial i gyfrannu £35 biliwn i'r economi yn y degawd nesaf.

Ochr yn ochr â gwella canlyniadau cyflogaeth, rydym bob amser wedi siarad am Gyfiawnder Cymdeithasol o ran mynd y tu hwnt i dlodi, gan edrych ar yr achosion sylfaenol, yn hytrach na syniadau anhyblyg o drosglwyddiadau incwm roedd llywodraethau blaenorol yn gaeth iddynt.

Yr allwedd i newid yw cynhaliaeth, gan wneud gwahaniaeth parhaol.

Mae'r sawl sy'n gaeth i gyffuriau ac alcohol rwyf wedi siarad â hwy yn dweud wrthyf nad yw'n ymwneud â bod yn sobor neu'n lân; yn hytrach aros yn sobr, ac aros yn lân yw'r nod.

Mae teuluoedd yn dweud wrthyf nad yw'n ymwneud â bod yn briod neu gael plentyn; yn hytrach aros yn briod ac aros gyda'ch plentyn yw'r nod.

Mae plant yn dweud wrthyf nad yw'n ymwneud â mynd i'r ysgol; yn hytrach aros yn yr ysgol, a chyrraedd yr addysg y mae cynifer yn eu cymryd yn ganiataol yw'r nod.

Ac mae'r un egwyddor yn berthnasol i weithio; nid dim ond cael swydd, mae'n ymwneud â chadw'r swydd honno, ac aros mewn gwaith.

Wrth ddarparu'r newid gwirioneddol a pharhaol hwn, mae Cyfiawnder Cymdeithasol yn ymwneud â newid tynged, symud pobl y tu hwnt i'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu.

Mae pob ystadegyn yn yr adroddiad hwn yn fywyd sydd wedi cael ei drawsnewid. At y diben hwnnw, hoffwn ddiolch i bawb o'r rhai y mae eu hymdrechion a'u hymroddiad wedi cyfrannu at wneud ein gweledigaeth yn realiti.

Gadewch i ni barhau i weithio gyda'n gilydd i adeiladu ar y gwaith addawol hwn. Nid yw ein nod yn golygu Cyfiawnder Cymdeithasol yn y Senedd hon yn unig; yn hytrach mae'n ymwneud â Chyfiawnder Cymdeithasol am flynyddoedd i ddod.



**Y Gwir. Anrh. Iain Duncan Smith**
Cadeirydd, Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol y Cabinet
Ysgrifennydd Gwladol dros Waith a Phensiynau

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cynnydd rhyfeddol a wnaed gan y Llywodraeth o ran cyflawni ei hymrwymiad i Gyfiawnder Cymdeithasol.

Mae pob cam gweithredu, pob rhaglen, pob ymyrraeth a phob polisi yn gweithio i wneud gwahaniaeth ystyrlon i fywydau pobl. Mae'r canlyniadau yn glir i weld:

- Mae bywydau cythryblus 70,000 o deuluoedd wedi'u trawsnewid
- Mae 250,000 o blant yn byw gyda'u rhieni biolegol
- Mae 387,000 llai o blant yn byw mewn cartrefi di-waith
- Mae 2,100 o gyn-aelodau gangiau wedi'i rhoi'r gorau i'w bywydau blaenorol gyda chymorth ymgynghorwyr arbenigol y Ganolfan Gwaith
- Mae 38% o blant sy'n derbyn prydau ysgol am ddim bellach yn cael 5 TGAU da
- Mae 53,000 o rieni yn cydweithio er lles gorau eu plant, trwy ein Cronfa Arloesi Help a Chefnogaeth i Deuluoedd sydd Wedi Gwahanu
- Mae 305,000 o aelwydydd lle nad oes neb erioed wedi gweithio; i lawr 14 y cant ers 2010
- Mae dros 48,000 o barau wedi cymryd rhan mewn cwnsela perthynas; mae bron i 160,000 o bobl wedi cael mynediad at gymorth perthynas ataliol
- Mae dros 12,000 o ymarferwyr sydd wedi'u hyfforddi i helpu i gynorthwyo teuluoedd sy'n profi anawsterau perthynas
- Defnyddiwyd £600m i helpu i adeiladu'r farchnad buddsoddiad cymdeithasol cynyddol

A'r flwyddyn nesaf, gallwn ddisgwyl mwy o newid mawr, mwy o fywydau wedi'u trawsnewid:

- Cynnwys y polisi cefnogi perthynas o dan un adran, yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Trwy'r Rhaglen Teuluoedd Cythryblus byddwn yn cefnogi 400,000 o deuluoedd ychwanegol, gyda'r Ganolfan Byd Gwaith yn dyblu ei rym o ymgynghorwyr swyddi arbenigol
- Mae ein Prawf Teulu newydd yn creu ffocws penodol ar deuluoedd; gwella sefydlogrwydd teuluol, perthnasoedd a lles
- Cydnabyddiaeth o bartneriaethau priodas a sifil yn y system dreth drwy lwfansau treth drosglwyddadwy

- Partneriaethau Nyrsys Teulu yn cael eu ehangu i 16,000 o leoedd

Cyflwynwyd yr adroddiad drwy ddefnyddio'r pum egwyddor sefydlu ein gweledigaeth Cyfiawnder Cymdeithasol, fel y nodir yn *Cyfiawnder Cymdeithasol: trawsnewid bywydau:*

1. Canolbwyntio ar ataliaeth ac ymyrraeth yn gynnar.
2. Lle mae problemau yn codi, canolbwyntio ar adferiad ac annibyniaeth yn hytrach na gwaith cynnal a chadw.
3. Hyrwyddo gwaith i'r rhai a all weithio fel y llwybr mwyaf cynaliadwy allan o dlodi, tra'n cynnig cefnogaeth ddiamod i'r rhai y mae eu hanabledd neu amgylchiadau yn golygu na allant weithio.
4. Cydnabod y bydd yr atebion mwyaf effeithiol yn aml yn cael eu cynllunio a'u darparu ar lefel leol.
5. Sicrhau bod ymyriadau yn rhoi bargen deg i'r trethdalwr.

Er ein bod wedi gweld cynnydd, er ein bod yn gweld tystiolaeth mewn nifer o leoedd o newid diwylliannol dwys, tra bod miloedd o fywydau a newidiwyd yn gwneud Cyfiawnder Cymdeithasol yn realiti, nid nawr yw'r amser i laesu dwylo, i wneud dim byd, neu roi'r gorau i'r pwysau a'r ymchwydd rydym wedi creu.

Nawr yw'r amser i ailddyblu ymdrechion, ac adnewyddu ein hymrwymiad i'r agenda hwn.

ISBN 978-1-78425-389-9

(h) Hawlfraint y Goron 2014

Cyhoeddwyd gan yr Adran
Gwaith a Phensiynau

Tachwedd 2014

**www.dwp.gov.uk/cymraeg**